

Gwers 25 – Taith y gwŷr doeth

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Mathew 2:8–20




Nod Mathew yn ei Efengyl yw dangos i'r Iddewon mai Iesu yw'r Meseia hir disgwylidig, Mab Dafydd, a bod ei fywyd yn cyflawni proffwydoliaethau'r Hen Destament. Crynoha Mathew hyn yn y geiriau agoriadol, 'Dyma restr achau Iesu Grist, Mab Dafydd, mab Abraham' (Mathew 1:1). Cysyllta'r datganiad hwn Iesu gyda dau o gyfamodau mawr Dduw â Dafydd ac Abraham. Yn ei gyfamod â Dafydd, addawodd Frenin a fyddai ar ei orsedd yn dragwyddol (2 Samuel 7:8–13). Yn ei gyfamod gydag Abraham, addawodd Duw y byddai holl deuluoedd y ddaear yn cael eu bendithio trwyddo ef, 'Gwnaf di yn genedl fawr a bendithiaf di:.... ac ynot ti bendithir holl dylwythau'r ddaear' (Genesis 2:2,3). Roedd dysgeidiaeth proffwydi'r Hen Destament yn cael eu cyflawni ym mherson Iesu Grist. Efengyl y Meseia, Eneiniog Dduw, yw efengyl Mathew. Ef yw'r llywodraethwr y cyfeiriodd Micha ato, '...a'i darddiad yn y gorffennol mewn dyddiau gynt' (Micha 5:2).

Mae Cristnogaeth yn ffydd hanesyddol; nid yw'n dechrau gyda'r geiriau 'Un tro, amser maith yn ôl', ond gyda'r geiriau 'Wedi i Iesu gael ei eni ym Methlehem Jwdea yn nyddiau'r Brenin Herod' (Mathew 2:1). Gwyddom y lleoliad (Bethlehem, Jwdea) a'r amser (pan oedd Herod yn teyrnasu) ac y mae mapiau o'r byd a'n calendrau yn tystio i'r digwyddiad. Y mae'r Efengyl yn ôl Mathew wedi ei seilio ar sylfaen gadarn hanes y byd, ac yn gwireddu geiriau Micha, 'Ond ti, Bethlehem Effrata, sy'n fechan i fod ymhlith llwythau Jwda, ohonot ti y daw allan i mi un i fod yn llywodraethwr yn Israel' (Micha 5:2).

Cenedl-ddynion oedd y gwŷr doeth o'r dwyrain, a ddaeth i chwilio am frenin yr Iddewon. Naturiol oedd iddynt fynd i Jerwsalem, oherwydd yno yr oedd palas y brenin. Ar gyfarwyddyd y prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion, 'aethant ar eu taith, a dyma'r seren a welsent ar ei chyfodiad yn mynd o'u blaen hyd nes iddi ddod ac aros uwchlaw'r man lle'r oedd y plentyn' (Mathew 2:9). Yn wahanol i Luc, sy'n defnyddio'r gair 'baban', cyfeiria Mathew at Iesu fel 'plentyn'. Yr oedd Mair a Joseff, mae'n debyg, wedi gadael eu llety tros dro i le mwy parhaol, efallai gyda pherthynas, a phan gyrhaeddodd y seryddion roedd Iesu'n ddwyflwydd oed neu fwy. Yr oedd Herod, pan glywodd ei fod wedi ei dwyllo gan y seryddwyr, wedi gorchymyn 'i ladd pob bachgen... oedd yn ddwyflwydd oed neu lai' (Mathew 2:16). Cyfeiria Mathew at broffwydoliaeth o eiddo Jeremeia, 'Rachel yn wylo am ei phlant, ac ni fynnai ei chysuro, am nad oeddent mwy' (Mathew 2:19).

Y Tri Gŵr Doeth

Ychydig a wyddom am y dynion hyn. Y cyfan a ddywed Mathew yw eu bod yn 'ddoethion' neu'n 'seryddion' ac yn dod o'r dwyrain. Bu cyfieithu 'Magi' yn broblem mewn ieithoedd eraill ond byddai eu galw'n seryddion doeth yn gywir oherwydd dangosir eu doethineb yn y ffaith iddynt ddilyn seren yr oeddent wedi sylwi arni, a dod i'r casgliad ei bod yn arwydd o enedigaeth brenin. Efallai bod Duw wedi siarad â hwy wrth iddynt sylwi ar y seren ddisgleiriach nag arfer. Nid yw Mathew yn dweud mai tri gŵr a aeth i Fethlehem; nifer y trysorau roddodd y rhif tri i ni. Y mae symbolaeth frenhinol i'r trysorau a gyflwynir: Aur (Salm 72:15), Thus (Eseia 60:6) a Myrr (Salm 45:8).



Daeth y dynion doeth â rhoddion i'r lesu. Beth ydyn nhw?

Darllen Mathew i gael yr ateb.

Nawr, una'r dynion doeth gyda'u hannrhegion.

Gwers 25 - Taith y gwyr doeth

Neges i'r dynion doeth | Mathew 2:8-20

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 108



Gwers 25

Taith y gwŷr doeth

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Taith y gwŷr doeth tud 108

BEIBL LLIW STORI DUW

Y Doethion o'r Dwyrain tud 220

BEIBL BACH STORI DUW

Brenin y Brenhinoedd tud 192

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Ymweliad y seryddion tud 86

BEIBL LLIW Y PLANT

Y sêr ddeiwiniad tud 196

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Neges i'r dynion doeth tud 128

BEIBL BACH I BLANT

Anrhegion Nadolig tud 302

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORIÄU

'Ble mae'r brenin?' (245) tud 282

Ymweliad y seryddion tud 86

Anrhegion addas i Frenin(246) tud 283

BEIBL LLIW Y TEULU

Neges i'r dynion doeth tud 128

Anrhegion i'r Brenin(232) tud 126

I Ddechrau

Ras lapio anrhegion

Bydd angen eitemau addas i'w lapio, rhai anos na'i gilydd, papur lapio rhad neu hen gylchgronau, tâp selo, oriawr i gadw amser, gwobrau bychan.

Rhannwch y plant yn dimoedd gyda'r un nifer o eitemau i'w lapio, o leiaf un i bob plentyn. Nod y gêm yw bod y timoedd yn lapio'r holl "anrhegion." Gallwch chwarae yn erbyn y cloc, neu fel ras un tîm yn erbyn y llall. Cadwch amser pob tîm. Ar ôl i bawb orffen lapio, archwiliwch yr anrhegion. Ychwanegwch 5 eiliad am bob blerwch/rhwyg y gwelwch. Rhowch wobr fechan i'r tîm buddugol.

Trafodwch yr holl syniad o dderbyn a rhoi anrhegion a'r rhesymau amdanynt. Gofynnwch i'r plant am eu syniadau ynglŷn â beth ydy anrhegion Duw i ni. Edrychwch ar yr adnod sydd yn Atodiad 4 ac eglurwch mai dyma rodd fwyaf Duw i ni. Mae'r traddodiad o roi anrhegion adeg y Nadolig yn ein hatgoffa o rodd Duw i'r byd.

"Yr anrheg gorau yn y byd i mi fyddai..."

Gêm gof yw hon. Mae'r person cyntaf yn cychwyn trwy adrodd, "Yr anrheg gorau yn y byd i mi fyddai....." gan ychwanegu unrhyw eitem o'i ddewis, e.e. crys Scarlets. Mae'r ail berson yn adrodd y frawddeg gyfan ac yn ychwanegu ei anrheg gorau, e.e. "Yr anrheg gorau yn y byd i mi fyddai crys Scarlets a Chamera digidol." Os nad ydy'r plentyn yn gallu cofio pob eitem flaenorol yn y drefn gywir, maent allan o'r gêm. Daw'r gêm i ben pan fydd dau berson yn unig ar ôl. Rhowch wobr fechan i'r enillwyr.

Trafodwch gyda'r plant pa anrhegion y maent yn dymuno eu cael y Nadolig hwn cyn trafod y traddodiad o roi a derbyn anrhegion. Eglurwch mai un o'r rhesymau am roi anrhegion adeg y Nadolig yw cofio'r anrheg anhygoel y mae Duw wedi ei roi i ni, sef yr Arglwydd Iesu.

Yr hanes

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio Beibl Gweithgaredd y Plant neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau. Wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori.

Cymhwyso

Darllenwch Mathew 2:10-11

Paratowch 3 parcel o flaen llaw, gyda label yr un (wnaiff llun anrheg y tro). Ar y label cyntaf y gair 'Llawenydd', ar yr ail label y gair 'Addoli' ac ar y trydydd label y gair 'Rhoi.' Dangoswch un anrheg ar y tro, darllen y label a gofynnwch y cwestiynau canlynol:

Ydyn ni'n llawen fel y Doethion pan fyddwn yn meddwl am Iesu, neu pan fyddwn yn yr Ysgol Sul yn dysgu amdano?

Ydyn ni'n addoli Iesu fel y Doethion? Mae addoli yn golygu dangos i Iesu ein bod yn ei garu, efallai trwy ganu neu weddio.

Ydyn ni'n rhoi anrhegion i Iesu fel y Doethion? Pa roddion y mae Iesu eisiau gennym ni? Yn gyntaf, mae Iesu eisiau ein calon, y gwahoddiad i ddod i fyw gyda ni. Mae Iesu eisiau i ni ddefnyddio popeth sydd gyda ni mewn ffordd sy'n ei blesio ac sy'n gymorth i bobl eraill.

Rhowch gyfle i'r plant holi cwestiynau a thrafod y syniadau hyn, cyn cael amser o weddi, yn defnyddio'r 'anrhegion' i'ch arwain.

Gweddïau

Rhowch ddarn o bapur siâp petryal i bawb a gofynnwch iddynt droi'r siâp i mewn i anrheg gyda phinnau ffelt/pensiliau lliw. Gofynnwch iddynt ysgrifennu gweddi ar y cefn yn diolch i Dduw am ei rodd fwyaf arbennig i'r byd, Iesu Grist. Efallai yr hoffai rhai o'r plant ddarllen eu gweddïau. Gludwch y gweddïau ar amlinelliad o goeden Nadolig.

Beth am ddod o hyd i wybodaeth am elusennau, megis Byddin yr Iachawdwriaeth, Shelter, Age Concern, i ddarganfod pa weithgareddau ac apeliadau maen nhw'n eu cynnal dros y Nadolig. Gweddiwch dros y mudiadau a'r bobl anghenus y byddant yn ceisio eu cyrraedd dros yr Ŵyl.

Adnoddau Ychwanegol

Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed Y doethion yn dod o hyd i Iesu tud. 102

Gwerslyfrau Golau ar y Gair

Y Nadolig, Nadolig: Goleuni'r Byd Nadolig: Rhodd Duw

Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres A, B a C - Stori'r Nadolig

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 32: Y Nadolig Cyntaf

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 322

Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 35: Anrhegion y Nadolig

Cyflwyniadau Powerpoint visionforchildren

Immanuel

Llyfrau Stori

Dilyn y Seren gyda'r gwŷr doeth
Seren Ryfeddol
Y Seren Newydd
Un Noson Serennog
Pwy fu ym Methlehem?
Croeso i'r Baban Iesu
Noson Dawns y Sêr
Pos llawr enfawr y Nadolig

